

JONES, WILLIAM ELLIS ('Cawrdaf'; 1795 - 1848), bardd a llenor

Enw: William Ellis Jones

Ffugenw: Cawrdaf

Dyddiad geni: 1795

Dyddiad marw: 1848

Rhiant: Ellis Jones

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd a llenor

Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

Awdur: Thomas Parry

Ganwyd 9 Hydref 1795, yn Nhyddyn Siôn, plwyf Abererch, Sir Gaernarfon. Cafodd addysg mewn ysgol yn yr ardal, a chan ei dad, Ellis Jones, a oedd yn cadw ysgol ei hun. Yn 1808 prentisiwyd ef yn argraffydd gyda'i gefnder, [Richard Jones](#) (1787 - 1855). Wedi bwrw ei brentisiaeth aeth i weithio at gefnder arall iddo, Lewis Evan Jones, yng Nghaernarfon. Yno daeth i adnabod '[Dafydd Ddu Eryri](#),' ac ymaelododd yng Nghymdeithas yr Eryron, a gyfarfyddai yn y Bontnewydd.

Yn 1817 aeth i Lundain, a bu'n aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion. Oherwydd ei ddawn fel arlunydd cafodd gynnig mynd ar daith i'r Cyfandir gyda gwr bonheddig, a bu oddi cartref rhwng 1817 a 1819, a theithiodd yn Ffrainc a'r Eidal. Wedi dychwelyd bu am ysbaid yn gweithio fel arlunydd ym Mryste a Bath. Yna aeth yn ôl i swyddfa argraffu [Richard Jones](#) yn Nolgellau. Oddi yno aeth i Gaerfyrddin ac yna i Ferthyr Tydfil at [Josiah T. Jones](#), ac aeth gydag ef pan symudodd i'r Bont-faen ac wedyn i Gaerfyrddin.

Yr oedd yn aelod gyda'r Methodistiaid Wesleiaidd, a phregethai yn achlysurol. Bu'n perthyn i amryw o gymdeithasau Cymreigyddion, ac ysgrifennodd awdlau i'r eisteddfodau ar destunau fel 'Hiraeth Cymro am ei Wlad' 1820, 'Rhaglywiaeth Siôr IV 1824, 'Derwyddon Ynys Prydain' 1834, 'Job' 1840. Cyhoeddodd lyfr rhyddiaith, [Y Bardd, neu y Meudwy Cymreig](#), 1830, hanes teithiau dychmygol i wahanol rannau'r byd. Moeswersol yw ansawdd y llyfr trwyddo, ac nid oes iddo ddim o nodweddion nofel, er ei alw'n hynny gan rai.

Bu farw 27 Mawrth 1848.

Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

Ffynonellau

William Ellis Jones, [Gweithoedd Cawrdaf sef, y diweddar W. E. Jones: yn cynnwys 'Gwyddfa y bardd' a'r 'Meudwy Cymreig'](#) (Caernarfon 1851)

A History of Carmarthenshire, ii, 215

A. H. Williams, *Welsh Wesleyan Methodism, 1800-1858 its origins, growth and secessions* (1935), 237, 322

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [William Ellis Jones](#)

Gweithiau

William Ellis Jones, *Y bardd, neu, Y meudwy Cymreig: yn cynnwys teithiau difyr ac addysgiadol y bardd gyda rhagluniaeth (Caerfyrddin 1830)*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [51475191](#)

Wikidata: [Q18327524](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

